



Cyngor ar Dechnolegau Iechyd

Bwletin Chwarterol | Hydref 2026

Beth yw pwrpas y bwletin hwn?

Mae'r bwletin hwn wedi cael ei gynhyrchu gan Technoleg Iechyd Cymru (HTW) i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau ar dechnolegau iechyd yn GIG Cymru. Mae'r bwletin yn rhestru adroddiadau a Chanllawiau ar dechnolegau iechyd a gyhoeddwyd gan HTW yn ystod Gorffennaf – Medi 2026. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau technoleg diweddar a gynhaliwyd gan asiantaethau asesu technoleg iechyd eraill ar draws y DU, Iwerddon ac Ewrop.

Beth yw technoleg iechyd?

Technoleg iechyd yw ymyrraeth, cynnyrch neu wasanaeth sydd yn cael ei ddatblygu i:

- atal, diagnosio neu drin cyflyrau meddygol
- hybu iechyd
- darparu adferiad neu
- i drefnu darpariaeth gofal iechyd.

Gallai'r dechnoleg iechyd fod yn brawf, dyfais, gweithdrefn neu lwybr cleifion.

Pa arbenigeddau sydd yn cael sylw yn y bwletin hwn?

Anafiadau, damweiniau a chlwyfau	2	Llygaid	3
Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol	2	Y system anadlol	3
Canser	2	Y system dreulio	3
Clefyd heintus	2	Y System nerfol	3
Darparu a threfnu gwasanaethau iechyd	3		

Mae cyngor a chanllawiau yn cael eu trefnu yn ôl arbenigedd, ac mae'r categorïddio [yn dilyn y prif arbenigeddau sydd yn cael eu rhestru yma](#) (Saesneg yn unig).

Pa gyngor y mae gofyn i GIG Cymru ei ystyried?

Mae'r cyngor a'r canllawiau y mae [gofyn i GIG Cymru eu hystyried](#) wedi cael eu hamlygu yn y golofn 'Statws' isod.

Beth nesaf?

- Os oes unrhyw rai o'r asesiadau technoleg sydd yn cael eu rhestru yn berthnasol i'r penderfyniadau polisi, cynllunio a chlinigol presennol o fewn GIG Cymru ac yr hoffech drafod eu perthnasedd, cysylltwch â HTW: <https://www.healthtechnology.wales/cysylltu/?lang=cy>
- Os hoffech gyfeirio technoleg i HTW i gael ei asesu, llenwch y ffurflen 'Awgrymu pwnc': <https://www.healthtechnology.wales/awgrymu-pwnc/?lang=cy>

Gwybodaeth a Chanllawiau ar Dechnolegau Iechyd (Gorffennaf 2026 – Medi 2026)

Arbenigedd	Asesiad Technoleg	Asiantaeth/Cynnyrch	Dyddiad Cyhoeddi	Statws yn GIG Cymru
Anafiadau, damweiniau a chlwyfau	TER661 Rhwymyn cywasgu wedi'i wneud o gyfuniad o ddeunyddiau elastig a deunyddiau sydd ddim yn elastig, i drin wlsrau ar y coesau a'r traed, ac oedema	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
Anhwyllderau meddyliol ac ymddygiadol	TER659 Profion ffarmacogenomig i ragweld ymateb clozapine mewn sgitsoffrenia sy'n gwrthsefyll triniaeth	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
Canser	TER652 Hyperthermia clinigol ochr yn ochr â radiotherapi a/neu gemotherapi i drin canser y fron sy'n dychwelyd	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
	TER649 Biopsïau hylifol o'r gwaed sy'n dadansoddi bôn-gelloedd sy'n cylchredeg a marcwyr moleciwlaidd cysylltiedig i ddarganfod a brysbennu canser yn gynnar	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
	TER648 Triniaeth cemoddirlawnder gyda PHP (percutaneous hepatic perfusion) ar gyfer tiwmorau metastatis yr afu sydd wedi lledaenu o felanoma yr wfëa	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
	Surface Guided Radiation Therapy SGRT (Saesneg yn unig)	Argymhelliad SHTG	Medi 2026	Er gwybodaeth yn unig
Clefyd heintus	GUI020-2 Profion canfod antigen cyflym ar gyfer heintiau streptococcol grŵp A i drin pobl â dolur gwddf mewn fferyllfeydd cymunedol	Canllaw HTW	Gorffennaf 2026	Dylai GIG Cymru fabwysiadu'r canllaw hwn neu gyfiawnhau pam nad ydyw wedi cael ei ddilyn

Arbenigedd	Asesiad Technoleg	Asiantaeth/Cynnyrch	Dyddiad Cyhoeddi	Statws yn GIG Cymru
	TER663 Tynnu bacteria o'r trwyn yn defnyddio golau arbennig er mwyn atal heintiau ar safle'r llawdriniaeth	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
Darparu a threfnu gwasanaethau iechyd	Virtual ward platform technologies to support transition of patients to the home setting or to avoid hospital admission (Saesneg yn unig)	Argymhelliad SHTG	Mehefin 2026	Er gwybodaeth yn unig
	HTA of COVID-19 vaccination in Ireland (Saesneg yn unig)	Asesu Technoleg Iechyd (HTA) llawn HIQA	Medi 2026	Er gwybodaeth yn unig
Llygaid	HTG781 Digital technologies to support home monitoring of vision changes for people with advanced dry age-related macular degeneration: early-use assessment (Saesneg yn unig)	Canllaw NICE HealthTech	Medi 2026	Er gwybodaeth yn unig
Y system anadlol	TER658 Synwryddion sydd yn cael eu gwisgo ar y bysedd i ddiagnosio a monitro anadlu sydd yn gysylltiedig ag anhwylderau cysgu mewn plant ac oedolion	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
Y system dreulio	HTG780 Ex-situ machine perfusion devices to preserve deceased donor livers for transplantation (Saesneg yn unig)	Canllaw NICE HealthTech	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig
Y System nerfol	GUI076 Technolegau gwisgadwy a thechnolegau gwely i ganfod ffitiau tonig-clonig mewn pobl ag epilepsi	Canllaw HTW	Gorffennaf 2026	Dylai GIG Cymru fabwysiadu'r canllaw hwn neu gyfiawnhau pam nad ydyw wedi cael ei ddilyn
	TER653 Ysgogi'r ffaryncs â thrydan i drin anawsterau llyncu sy'n deillio o anhwylderau niwrogenig mewn oedolion	Adroddiad Archwilio Pwnc HTW	Awst 2026	Er gwybodaeth yn unig

Geirfa

Adroddiad Archwilio Pwnc HTW: wedi'i ddylunio i ddarparu briff lefel uchel ar bynciau newydd sydd yn cael eu cyflwyno i'w hystyried gan HTW

Argymhelliad SHTG: argymhellion seiliedig ar dystiolaeth ar sut y dylid defnyddio'r dechnoleg iechyd yng nghyd-destun yr Alban, wedi'i ddatblygu gan gyngor cyngori cenedlaethol mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid.

Asesu Technoleg Iechyd (HTA) llawn yr Awdurdod Gwybodaeth ac Ansawdd Iechyd (HIQA): mae Asesu Technoleg Iechyd (HTA) yn broses amlddisgyblaethol, sy'n defnyddio dulliau penodol i benderfynu ar werth technoleg iechyd ar wahanol adegau yn ei gylch bywyd. Y pwrpas yw gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo system iechyd gyfartal, effeithlon ac o safon. Mae Asesu Technoleg Iechyd (HTA) llawn yn archwilio pob parth (neu'r rhan fwyaf o'r parthau) o Fodel Craidd EUnetHTA.

Canllaw NICE HealthTech: yn gwerthuso technolegau digidol, diagnosteg a dyfeisiau meddygol (gan gynnwys deallusrwydd artifisial). Mae'n ystyried cynhyrchion HealthTech sydd ar y cam datblygu cynnar, ond a allai gynnig gwerth posibl i'r GIG, sy'n addas ar gyfer defnydd eang arferol, neu sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn y GIG. Mae'n cynnwys canllaw ar effeithiolrwydd a diogelwch gweithdrefnau ymyriadol.

Canllaw HTW: crynhoi'r dystiolaeth a'r goblygiadau clinigol a chost-effeithiolrwydd ar gyfer y dechnoleg iechyd yng Nghymru.

Cydnabyddiaethau

Datblygwyd y bwletin hwn gan HTW gyda chefnogaeth Grŵp Technoleg Iechyd yr Alban (SHTG) a Awdurdod Gwybodaeth ac Ansawdd Iechyd (HIQA).